



13.02.20

Cathryn Ings
Cyswllt Contact
Ffôn Phone 03305 880450

Erthygl i'r Wasg Press Article

Cyplau Cymru'n barod i ddathlu, diolch i Priodas Pum Mil!

Mae'r gyfres newydd o **Priodas Pum Mil** yn addo sawl sypreis mawr - gan gynnwys y fendith priodas gyntaf erioed yng Nghastell Caernarfon, gwasanaeth ar gae pêl-droed a *photoshoot* gyda'r briodferch a'i hoff fuwch.

A heb ddatgelu gormod, mae Emma Walford, sy'n cyflwyno **Priodas Pum Mil** gyda Trystan Ellis Morris yn addo bydd sawl wyneb cyfarwydd yn ymweld â'r priodasau yn y gyfres newydd.

"Pan dwi a Trystan yn cwrdd â'r cwpl ar y dechrau, da ni'n cael rhestr o'r pethau hofften nhw gael yn eu priodas," esboniodd Emma. "Ond da ni'n licio rhoi sypreis bach i'r cwpl fel gwestai neu leoliad arbennig."

Ac mae sawl lleoliad anhygoel yn y gyfres newydd sef priodas Deiniol a Sorrell Owen-Jones yng Nghastell Caernarfon a Lynne a Dafydd Edwards o Gaerwen, Ynys Môn yn eglwys Llangwyfan ar ynys fach ger y môr.

Mae sawl gwestai arbennig hefyd gydag un briodferch - Rhoswen Whittall-Williams o Drelech, Sir Gaerfyrddin, yn mynnu bod ei hoff fuwch, Margaret, yn rhan o'i diwrnod mawr.

Heblaw am ryg, lamp ac ychydig o glustogau newydd, mae fformat llwyddiannus **Priodas Pum Mil** yn aros union yr un peth - pam newid rhywbeth sy'n gweithio mor dda? Felly, teulu a ffrindiau'r cwpl hapus sy'n trefnu'r diwrnod mawr - gyda help Emma a Trystan - am ddim mwy na £5,000.

Mae **Priodas Pum Mil** nawr ar ei bedwaredd gyfres ac fe fydd wyth priodas y tro hwn - dwy yn fwy nag yn y cyfresi blaenorol - felly beth yw'r gyfrinach tu ôl i'r llwyddiant?

"Wel, mae'n gyfres sy'n rhoi gwên ar wyneb," meddai Emma. "Mae'n onest, mae'r cyplau sy'n priodi yn bobl go iawn. Mae llawer o bobl yn dod lan ataf fi a dweud mai'r prif beth am y gyfres yw bod y teulu i gyd yn gallu eistedd lawr a gwyllo'r rhaglen efo'i gilydd a does dim llawer o rhaglenni sy'n cynnig hyn."

"Gyda **Priodas Pum Mil** dydy o ddim jysd yn rhaglen teledu - mae lot o emosiwn yna. Mae'r cyfnod da ni yn treulio gyda'r teuluoedd yn fyr ond mae hyn yn gwneud pethau mwy *intense*. Ti'n rhoi lot o dy hunan mewn i drefnu'r briodas a ti wir eisiau'r gorau i'r cwpl."

Yn y rhaglen gyntaf byddwn yn cwrdd â Sioned a Kenny Hughes o Walchmai, Sir Fôn. Mae'r darpar bâr priod yn byw a bod pob dim pêl-droed ac yn ffans enfawr o Liverpool FC. Sut fydd ein criw o deulu a ffrindiau yn ymdopi wrth drefnu priodas o gwmpas y bêl gron, am bum mil o bunnoedd?

Priodas Pum Mil

Nos Sul 23 Chwefor 8.00, S4C. Isdeitlau Saesneg

Ar gael ar alw ar S4C Clic s4c.cymru/clic, BBC iPlayer a llwyfannau eraill

Cynhyrchiad Boom Cymru ar gyfer S4C



13.02.20

Cathryn Ings
Cyswllt Contact
Ffôn Phone 03305 880450

Erthygl i'r Wasg Press Article

Time to celebrate love and marriage with Priodas Pum Mil

The new series of **Priodas Pum Mil** is promising some big surprises – the first ever wedding blessing at Caernarfon Castle, a service on a football pitch and a photoshoot with the bride and her favourite cow.

And without revealing too much, Emma Walford, who presents **Priodas Pum Mil** with Trystan Ellis Morris hints that there will be several familiar faces popping into the weddings in the new series.

"When Trystan and I meet the couples at the beginning, we get a list of the things they would like to have in their wedding," explained Emma. "But we like to give the couple a little surprise – like a special guest or location."

And there are several amazing locations in the new series including Deiniol and Sorrell Owen-Jones's wedding blessing in Caernarfon Castle and Lynne and Dafydd Edwards from Gaerwen's ceremony in Llangwyfan church on a tiny island in the sea.

There are several special guests too, with one bride – Rhoswen Whittall-Williams from Trelech, Carmarthenshire insisting that her favourite cow, Margaret, be part of her big day.

Apart from a new rug, lamp and cushions, the successful format of **Priodas Pum Mil** remains exactly the same – why change something that works so well? It is the happy couple's friends and family – with the help of Emma and Trystan – who must organise the big day for no more than £5,000.

Priodas Pum Mil is now on its fourth series and there will be eight weddings – two more than previous series – so what is the secret behind its success?

"Well, it is a series which puts a smile on your face," said Emma. "It's honest, the couples who are getting married are real people. Lots of people come up to me and say that the main thing about the series is that the whole family can sit down and enjoy it together and there aren't many programmes where you can do this."

"**Priodas Pum Mil** isn't just a television programme – there is a lot of emotion there too. The time we spend with the families is short, but this makes it all the more intense. You put a lot of yourself into organising a wedding and you really want to do your best for the couple."

In the first programme we meet Sioned and Kenny Hughes from Gwalchmai, Anglesey. The couple live and breathe everything to do with football and are huge fans of Liverpool FC. How will our crew of friends and family cope with organising a wedding around the beautiful game for five thousand pounds?

Priodas Pum Mil

Sunday 23 February 8.00, S4C

English subtitles

Available on demand on S4C Clic s4c.cymru/clic, BBC iPlayer and other platforms

A Boom Cymru production for S4C